LLYWODRAETH CYMRU – CRONFA DATBLYGU CYMUNEDAU GWLEDIG

Sefydlwyd y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig i gynnal prosiectau isadeiledd bach er mwyn gwella cydlyniant cymunedol yn ardaloedd gwledig Cymru.

Mae'r gronfa yn cefnogi:

- gwella neu ehangu gwasanaethau sylfaenol lleol
- cludiant cymunedol a chysylltedd
- prosiectau ynni adnewyddadwy
- adfywio pentrefi ac amwynderau cyhoeddus

Ac yn darparu cymorth ar gyfer

- llunio **cynlluniau datblygu a chynlluniau gwarchod a rheoli**
- creu, gwella neu ehangu pob mathau o isadeiledd **bychain**, gan gynnwys buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ac arbed ynni
- creu, gwella neu ehangu isadeiledd band eang, isadeiledd band eang goddefol a darparu mynediad i fand eang ac e-lywodraethu cyhoeddus
- sefydlu, gwella neu ehangu **gwasanaethau sylfaenol lleol ar gyfer y boblogaeth wledig gan gynnwys hamdden a diwylliant**, a'r isadeiledd cysylltiedig
- creu **isadeiledd hamdden cyhoeddus, canolfannau croeso ac isadeiledd twristiaeth bach**
- cynnal astudiaethau a buddsoddi mewn cynnal a chadw, adfer a gwella'r **dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol** (lleiafswm grant yn £400; 50% o'r costau cymwys)
- adleoli a buddsoddi mewn **gweithgareddau adeiladau neu gyfleusterau eraill sydd y tu mewn neu wrth ymyl aneddiadau gwledig**, gyda'r nod o wella ansawdd bywyd neu gynyddu perfformiad amgylcheddol yr anheddiad

Oni nodir yn wahanol, bydd isafswm grant o £2,400 ar gael ar gyfer dim mwy na 80% o gyfanswm y costau. Ar gyfer buddsoddiadau isadeiledd bychain yr uchafswm grant i bob prosiect yw £128,000 tuag at gyfanswm cost prosiect o £160,000. Gall busnesau, sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a chymunedol yn ardaloedd gwledig Cymru ymgeisio.

Y dyddiad cau cyntaf ar gyfer Datganiadau o Ddiddordeb yw 31 Ionawr 2016.

Mae rhagor o fanylion ynghyd â chanllawiau a ffurflen gais ar gael yn:-

http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/rural-community-development-fund/?skip=1&lang=cy